



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai

## Arolwg Cyflwr Tai Cymru, 2017-18

### Geirfa

Diben y ddogfen hon yw rhoi geirfa o dermau a ddefnyddir yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru, 2017-18 i ddefnyddwyr. Mae'n ddogfen fyw a chaiff ei diweddarau wrth i dermau ychwanegol gael eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu caiff ei diwygio o ganlyniad i adborth gan ddefnyddwyr.

### Cynnwys

Cymhorthion ac Addasiadau (yn gysylltiedig ag oedran / anabledd / nam) .....	3
Safon ystafelloedd gwely .....	3
Math o foeler .....	3
Dyddiad adeiladu .....	4
Inswleiddio Wal Geudod .....	4
Lleithder a llwydni: .....	4
Plant dibynnol .....	4
Annedd .....	4
Oedran annedd .....	5
Math o annedd .....	5
Dosbarthiad effeithlonrwydd ynni .....	6
Band dosbarthiad effeithlonrwydd ynni .....	6
Dosbarthiad Effaith Amgylcheddol .....	6
System wresogi .....	6
Cartref .....	6
Person Cyswllt y Cartref .....	6
Math o aelwyd .....	6
System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai .....	7
Inswleiddio .....	9
Ardal Leol .....	9
Golau rhad-ar-ynni .....	9
Golau rhad-ar-ynni .....	9
Plant nad ydynt yn ddibynnol .....	9

Meddiannaeth .....	9
Gorlenwi.....	9
Elfennau adnewyddadwy .....	10
Gweithdrefn Asesu Safonol .....	11
Diffygion Strwythurol .....	11
Deiliadaeth.....	12
Eiddo wedi ei danfeddiannu.....	12
Trefol/Gwledig.....	12
Eiddo gwag .....	13
Aelwydydd sy'n agored i niwed .....	13
Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) .....	13

## **Cymhorthion ac Addasiadau (yn gysylltiedig ag oedran / anabledd / nam)**

Yn aml, gall mân addasiadau i gartrefi pobl hŷn a phobl anabl eu helpu i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol a gall atal yr angen i'w derbyn i'r ysbyty neu alluogi'r sawl sydd yn yr ysbyty i gael eu rhyddhau'n gynharach. Caiff amrywiaeth o gwestiynau eu cynnwys ar ffurflen yr arolwg o ran p'un a oes gan yr annedd addasiadau a hygyrchedd i bobl anabl. Ymysg y cwestiynau mae p'un a yw'r annedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, a oes ystafell ar y llawr mynediad sy'n addas i'w defnyddio fel ystafell wely a ph'un a yw'r ystafell ymolchi/toiled ar y llawr mynediad. Gofynnir i'r syrfëwr nodi p'un a oes gan yr annedd unrhyw addasiadau ar gyfer pobl anabl fel rampiau, canllawiau gafael, lifftiau grisiau, offer codi neu addasiadau trydanol (mannau pŵer ar uchder priodol).

## **Safon ystafelloedd gwely**

Defnyddir y 'safon ystafelloedd gwely' fel dangosydd o ddwysedd meddiannaeth. Caiff nifer safonol o ystafelloedd gwely ei chyfrifo ar gyfer pob cartref yn unol â'i gyfansoddiad o ran oedran/rhyw/statws priodasol a chydberthynas yr aelodau i'w gilydd. Caniateir ystafell wely ar wahân ar gyfer pob cwpwl priod neu gwpwl sy'n cyd-fyw, unrhyw berson arall 21 neu drosodd, pob pâr o bobl ifanc 10-20 oed o'r un rhyw, a phob pâr o blant dan 10 oed. Caiff unrhyw berson nad yw mewn pâr ac sydd rhwng 10 a 20 oed ei baru'n dybiannol â phlentyn dan 10 oed o'r un rhyw, neu, os nad yw hynny'n bosibl, ystyrir bod angen ystafell wely ar wahân arno/arni, ynghyd ag unrhyw blentyn nad yw mewn pâr sydd dan 10 oed.

Yna, caiff y nifer safonol dybiannol hon o ystafelloedd gwely ei chymharu â'r nifer wirioneddol o ystafelloedd gwely (yn cynnwys fflatiau un ystafell) sydd ar gael at ddefnydd y cartref yn unig, a chaiff y gwahaniaethau eu nodi mewn tabl. Ni chyfrifir bod ystafelloedd gwely a gaiff eu trosi at ddefnyddiau eraill ar gael oni fyddant wedi cael eu dynodi'n ystafelloedd gwely gan yr ymatebwyr; caiff ystafelloedd gwely nad ydynt yn cael eu defnyddio eu cyfrif oni bai nad yw'n bosibl byw ynddynt. Dywedir bod cartrefi yn orlawn os oes llai o ystafelloedd gwely ar gael ynddynt na'r nifer dybiannol sy'n angenrheidiol. Dywedir bod cartrefi wedi'u tanfeddiannu os oes dwy neu fwy o ystafelloedd gwely na'r nifer dybiannol sy'n angenrheidiol.

## **Math o foeler**

Safon: darparu dŵr poeth neu aer cynnes ar gyfer gwresogi gofod gyda'r cyntaf hefyd yn darparu dŵr poeth drwy silindr storio ar wahân.

Cefn: wedi'i leoli y tu ôl i gynhesydd ystafell ac mae'n bwydo dŵr poeth i silindr storio ar wahân. Maent fel arfer yn llai effeithlon na mathau eraill o foeleri.

Cyfunol: darparu dŵr poeth neu aer cynnes ar gyfer gwresogi gofod a gall ddarparu dŵr poeth ar alw gan negyddu'r angen am silindr storio, sy'n golygu bod angen llai o le.

Cyddwyso: Gall boeleri safonol a chyfunol hefyd fod yn foeleri cyddwyso. Mae boeler cyddwyso yn defnyddio cyfnewidydd gwres mwy, neu ddeuol, er mwyn cael mwy o wres o danwydd sy'n llosgi o gymharu â boeler arferol, ac fel arfer, dyma'r math mwyaf effeithlon o foeler.

## Dyddiad adeiladu

Dyddiad adeiladu rhan hynaf yr adeilad. Os oes gan annedd estyniad diweddarach mawr neu os yw wedi cael ei ailadeiladu'n rhannol, bydd y syrfëwr yn cofnodi oedran y rhan hynaf hyd yn oed os yw'n cyfrif am lai na hanner ardal yr annedd. Lle y bo'n bosibl, bydd y syrfëwr yn defnyddio unrhyw wybodaeth bendant sydd ar gael, er enghraifft dyddiad oddi ar blac wal neu wybodaeth ddibynadwy gan y perchennog. Os nad oes awgrym clir o union ddyddiad, bydd y syrfëwr yn defnyddio ei grebwyll i wneud amcangyfrif.

Os yw annedd wedi cael ei throsi o'i defnydd gwreiddiol, er enghraifft o sgubor neu warws, yna bydd y syrfëwr yn cofnodi dyddiad adeiladu'r sgubor neu'r warws, nid y dyddiad y cafodd ei throsi o ddefnydd amhreswyl (caiff hyn ei gofnodi mewn man arall ar ffurflen yr arolwg).

## Inswleiddio Wal Geudod

Gweler [Inswleiddio](#)

### Lleithder a lwydni:

**Lleithder codi:** pan fydd y syrfëwr wedi nodi bod lleithder codi mewn un o'r ystafelloedd a arolygwyd o leiaf yn ystod yr arolwg ffisegol. Mae hwn o ganlyniad i gwrs a chroen atal lleithder diffygiol neu ddiffyg cwrs neu groen o'r fath mewn waliau a lloriau, gan arwain at ddŵr yn gollwng i adeiledd yr adeilad.

**Lleithder treiddiol:** pan fydd y syrfëwr wedi nodi bod lleithder treiddiol mewn un o'r ystafelloedd a arolygwyd o leiaf yn ystod yr arolwg ffisegol. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i ddŵr yn gollwng a achosir gan ddiffygion o fewn cydrannau adeilad, fel difrod i waliau neu orchudd to, dŵr yn dod i mewn oherwydd seliau wedi'u difrodi ar ddrysau neu ffenestri neu lleithder o ganlyniad i ddŵr yn gollwng o waith plymio mewnol.

**Cyddwysiad neu lwydni:** anwedd dŵr (lleithder) yn cronni mewn annedd, sy'n cyddwysio ar arwynebau oer fel ffenestri a waliau. Gall hyn fod o ganlyniad i awyru annigonol neu aneffeithlon. Mae bron bob annedd yn cynnwys rhyw lefel o gyddwysiad. Dim ond lefelau difrifol o gyddwysiad neu lwydni a ystyrir yn broblem, fel pan fydd ardaloedd helaeth o lwydni yn tyfu ar waliau a nenfydau a/neu lwydni ar ddodrefn meddal.

## Plant dibynnol

Unrhyw berson 0 i 15 oed (p'un a yw'n rhan o deulu ai peidio) neu berson 16 i 18 oed mewn addysg amser llawn ac sy'n byw fel rhan o deulu gyda'i riant/rieni neu fam-gu(od) a thad-cu(od). Nid yw'n cynnwys unrhyw un 16 i 18 oed sydd â phriod, partner neu blentyn sy'n byw yn y cartref.

## Annedd

Uned llety a all gynnwys un neu fwy o ofodau cartref (gofod cartref yw'r llety a ddefnyddir neu sydd ar gael i'w ddefnyddio gan gartref unigol). Gellir dosbarth annedd yn un a rennir neu'n un na chaiff ei rhannu. Caiff annedd ei rhannu os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae'r ofodau cartref a geir ynddi yn 'rhan o dŷ wedi'i drosi neu dŷ a rennir', neu

- nid yw'r holl ystafelloedd (yn cynnwys y gegin, yr ystafell ymolchi a'r toiled, os oes rhai) y tu ôl i ddrws y gall y cartref ei ddefnyddio yn unig, ac
- mae o leiaf un gofod cartref arall o'r fath yn yr un cyfeiriad y gall gyfuno ag ef i greu'r annedd a rennir.

Anheddau na chânt eu rhannu yw anheddau nad ydynt yn bodloni'r amodau hyn.

## **Oedran annedd**

Gweler [Dyddiad adeiladu](#).

## **Math o annedd**

Mae anheddau wedi'u dosbarthu, ar sail arolygiad syrfëwr, i'r categorïau canlynol:

- tŷ teras: tŷ sy'n ffurfio rhan o floc lle mae o leiaf un tŷ yn sownd i ddau neu fwy o dai eraill
- tŷ teras pen: tŷ sy'n sownd i un tŷ arall yn unig mewn bloc lle mae o leiaf un tŷ yn sownd i ddau neu fwy o dai eraill.
- tŷ teras canol: tŷ sy'n sownd i ddau dŷ arall mewn bloc
- tŷ pâr: tŷ sy'n sownd i un tŷ arall yn unig mewn bloc o ddau
- tŷ sengl: tŷ lle nad oes yr un o'r strwythurau trigiadwy yn sownd i adeilad arall (heblaw am garejis, tai allan ac ati)
- byngalo: tŷ lle mae'r holl lety trigiadwy ar un llawr. Nid yw hyn yn cynnwys byngalos lle mae'r atig wedi'i addasu ac yn drigiadwy, a gaiff eu trin fel tai
- fflat wedi'i throsi: fflat sy'n deillio o drosi tŷ neu hen adeilad amhreswyl. Mae hyn yn cynnwys adeiladau wedi'u trosi'n fflat ynghyd ag eiddo masnachol (fel siopau cornel).
- fflat wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, mewn adeilad nad yw'n uchel: fflat mewn adeilad pwrpasol sy'n llai na chwe llawr o uchder. Mae'n cynnwys achosion lle mai dim ond un fflat â mynediad annibynnol a geir mewn adeilad sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion annomestig
- fflat wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, mewn adeilad uchel iawn: fflat mewn adeilad pwrpasol sy'n chwe llawr o uchder o leiaf.

## **Dosbarthiad effeithlonrwydd ynni**

Gweler [Dosbarthiad y Weithdrefn Asesu Safonol](#)

## **Band dosbarthiad effeithlonrwydd ynni**

Gweler [Dosbarthiad y Weithdrefn Asesu Safonol](#)

## **Dosbarthiad Effaith Amgylcheddol**

Gweler [Dosbarthiad y Weithdrefn Asesu Safonol](#)

## **System wresogi**

Mae tri phrif fath o wres yn cael eu cwmpasu yn yr arolwg:

- system gwres canolog: fel arfer, system gyda boeler nwy a rheiddiaduron sy'n dosbarthu gwres drwy'r annedd (ond mae'r diffiniad hwn hefyd yn cynnwys systemau aer cynnes, gwres nenfwd/o dan y llawr a chymunedol trydanol). Fel arfer, ystyrir ei fod yn ddull cost-effeithiol a chymharol effeithlon o wresogi annedd. Mae systemau cymunedol yn defnyddio gwres a gaiff ei greu mewn lleoliad canolog ar gyfer gofod preswyl ac ar gyfer gwresogi dŵr. Gallai hyn fod o
  - foeler canolog sy'n defnyddio unrhyw danwydd sy'n cyflenwi nifer o anheddau
  - gwres gwastraff o orsafoedd pŵer a ddsberthir drwy gynlluniau gwresogi cymunedol
  - gwres o system gwres a phŵer cyfunedig (CHP) leol
- gwresogyddion stôr: defnyddir yn bennaf mewn anheddau sydd â thariff trydan y tu allan i oriau brig. Mae gwresogyddion stôr yn defnyddio trydan y tu allan i oriau brig er mwyn storio gwres mewn brics clai neu ddeunydd seramig ac yna caiff y gwres hwn ei ryddhau drwy gydol y dydd. Fodd bynnag, gall system gwres stôr fod yn rhy ddrud os caiff gormod o drydan oriau brig ei ddefnyddio yn ystod y dydd.
- gwresogyddion ystafell: mae'r categori hwn yn cynnwys pob math arall o wresogyddion fel gwresogyddion nwy gosodedig, gwresogyddion trydan gosodedig neu wresogyddion trydan symudol. Fel arfer, ystyrir mai'r math hwn o system gwres yw'r lleiaf cost-effeithiol o'r prif systemau ac mae'n cynhyrchu mwy o allyriadau carbon deuocsid fesul kWh.

## **Cartref**

Ystyr cartref yw un person yn byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl, a all fod yn perthyn ai peidio, sy'n byw yn yr un annedd, sy'n rhannu o leiaf un ystafell fyw neu lolfa a/neu sydd â threfniadau rheolaidd i rannu o leiaf un pryd o fwyd bob dydd.

## **Person Cyswllt y Cartref**

Y person sy'n berchen ar yr eiddo neu sy'n rhentu'r eiddo. Os yw'r eiddo dan gydberchenogaeth neu'n cael ei rentu ar y cyd, y person yw'r un sy'n ennill fwyaf. Os yw'r incwm yn gyfartal, y person yw'r un hynaf.

## **Math o aelwyd**

Mae prif ddsbarthiad y math o gartref yn defnyddio'r categorïau canlynol:

- Cwpwl sy'n bensynwyr - cwpwl lle mae un neu fwy o'r oedolion o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd.
- Pensiwnwr sengl - oedolyn sengl o oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd.
- Cwpwl gyda phlant - cwpwl nad ydynt yn bensynwyr gyda phlant dibynnol.
- Cwpwl heb blant - cwpwl nad ydynt yn bensynwyr heb unrhyw blant dibynnol.
- Oedolyn sengl gyda phlant - oedolyn sengl nad yw'n bensynwr gyda phlant dibynnol.
- Oedolyn sengl heb blant - oedolyn sengl nad yw'n bensynwr heb unrhyw blant dibynnol.
- 3 neu fwy o oedolion gyda phlant – tri neu fwy o oedolion gyda phlant dibynnol.
- 3 neu fwy o oedolion heb blant - yn perthyn - tri neu fwy o oedolion heb unrhyw blant dibynnol, sy'n perthyn i'w gilydd.
- 3 neu fwy o oedolion heb blant - ddim yn perthyn - tri neu fwy o oedolion heb unrhyw blant dibynnol, nad ydynt yn perthyn.
- Cartrefi eraill.

### **System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai**

Disodlodd System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (yr HHSRS neu'r System Mesur) y Safon Ffitrwydd yn ôl y gyfraith, yn 2006. Yr egwyddor y tu ôl i'r HHSRS yw y dylai anheddiad gynnig amgylchedd byw diogel ac iach ar gyfer y meddiannydd ac unrhyw ymwelwyr.

Mae'r HHSRS yn penderfynu p'un a oes perygl a all achosi niwed i iechyd a diogelwch darpar feddiannydd sydd fwyaf agored i'r perygl hwnnw. Er enghraifft, mae grisiau yn peri mwy o risg i bobl hŷn a phlant ifanc iawn felly wrth asesu peryglon sy'n gysylltiedig â grisiau, ystyrir mai nhw yw'r grŵp sydd fwyaf agored i niwed. Mae'r HHSRS yn asesu 29 o fathau o beryglon tai ac yn rhoi dosbarthiad ar gyfer pob un. Gelwir y rheini sy'n sgorio'n uchel ar y raddfa (ac sy'n peri'r risg fwyaf felly) yn beryglon Categori 1 – ar ôl arolygiad gan yr awdurdod lleol, os canfyddir bod annedd yn cynnwys perygl Categori 1, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i gymryd y camau gorfodi priodol. Gelwir y rhai sy'n ymddangos yn is i lawr y raddfa ac sy'n peri llai o risg yn beryglon Categori 2 – pan fydd y rhain yn digwydd gall yr awdurdod lleol gymryd camau gorfodi. Mae awdurdodau lleol bellach yn seilio pob penderfyniad gorfodi, mewn perthynas â safleoedd preswyl, ar asesiadau'r HHSRS. Mae'r mathau o beryglon yr un fath ar gyfer Categoriâu 1 a 2. Byddai unrhyw elfen sydd wedi'i dosbarthu yn Berygl Categori 1 yr HHSRS yn golygu y byddai'r annedd yn 'Methu' Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn awtomatig.

Asesodd SATC 26 o'r 29 o beryglon posibl. Cafodd 6 o'r peryglon eu mesur yn uniongyrchol yn yr arolwg, dim ond 16 y nodwyd eu bod yn peri risg eithriadol a modelwyd 4 arall gan ddefnyddio data SATC neu ddata eraill. Y peryglon na chawsant eu mesur yw'r rhai y mae'n eithriadol o annhebygol y byddant yn digwydd. Rhoddir rhestr o'r peryglon a'u statws wedi'u mesur/modelu isod.

Perygl	Sut y cafodd ei asesu	Grŵp oedran penodol sy'n agored i niwed
--------	-----------------------	---

1	Rhy oer	Wedi'i fodelu	65 oed neu drosodd
2	Syrthio ar arwynebau gwastad	Wedi'i fesur yn llawn	60 oed neu drosodd
3	Syrthio ar y grisiau ac ati	Wedi'i fesur yn llawn	60 oed neu drosodd
4	Ymbelydredd	Wedi'i fodelu	Dim
5	Gwrthdrawiad a chaethiwo	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dan 5 oed
6	Fflamau, arwynebau poeth ac ati	Wedi'i fesur yn llawn	Dan 5 oed
7	Gorlenwi a gofod	Wedi'i fodelu	Dim
8	Tân	Wedi'i fesur yn llawn	60 oed neu drosodd
9	Lleithder a llwydni yn tyfu	Wedi'i fesur yn llawn	Dan 14 oed
10	Tresmaswyr yn torri i mewn	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
11	Cwmpadau sy'n gysylltiedig â baddonau	Nodir os yw'n risg eithriadol	60 oed neu drosodd
12	Sŵn	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
13	Syrthio rhwng lefelau*	Wedi'i fesur yn llawn	Dan 5 oed
14	Diogelwch bwyd	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
15	Diogelwch trydanol	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dan 5 oed
16	Carbon monocsid a chynhyrchion hylosgi tanwydd	Nodir os yw'n risg eithriadol	65 oed neu drosodd
17	Hylendid personol, glanweithdra a draenio	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dan 5 oed
18	Ffrwydradau	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
19	Safle a gweithrediadaeth amwynderau ac ati	Nodir os yw'n risg eithriadol	60 oed neu drosodd
20	Cwmp strwythurol a chydrannau'n syrthio	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
21	Rhy boeth	Nodir os yw'n risg eithriadol	65 oed neu drosodd
22	Asbestos (ac MMF)	Heb ei asesu	Dim
23	Bioladdwyr	Heb ei asesu	Dim
24	Plwm	Wedi'i fodelu	Dan 3 oed
25	Nwy tanwydd heb ei hylosgi	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
26	Cyfansoddion organig anweddol	Heb ei asesu	Dim



27	Goleuadau	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
28	Plâu hylendid a sbwriel domestig	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim
29	Cyflenwad dŵr	Nodir os yw'n risg eithriadol	Dim

## Inswleiddio

**waliau ceudod:** lle mae gan annedd waliau allanol sydd wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio ceudodau yn bennaf, diffinnir bod ganddo system inswleiddio wal geudod os bydd o leiaf 50% o'r waliau ceudod wedi'u llenwi â deunydd inswleiddio. Gallai hyn fod wedi cael ei osod yn ystod y broses adeiladu neu ei chwistrellu ar ôl hynny rhwng dalenni cerrig y wal geudod.

**waliau solid:** lle mae gan annedd waliau allanol sydd wedi'u hadeiladu o gerrig solid yn bennaf, diffinnir bod ganddo system inswleiddio wal solid os bydd o leiaf 50% o'r waliau solid wedi'u llenwi â deunydd inswleiddio. Gellid cymhwyso hyn naill ai'n allanol (e.e. bwrdd wedi'i inswleiddio wedi'i atodi i'r wyneb allanol gyda gorffeniad wedi'i rendro) neu'n fewnol (e.e. bwrdd plastr wedi'i osod i'r waliau allanol y tu mewn i bob ystafell, gyda gorffeniad plaster).

**waliau eraill:** unrhyw anheddau lle ceir waliau solid cerrig neu waliau heb geudodau (e.e. fframiau coed, metel neu goncrid).

**inswleiddio atig:** caiff presenoldeb a dyfnder deunydd inswleiddio atig eu casglu ar gyfer pob tŷ a fflat llawr uchaf. Gellid dod o hyd i ddeunydd inswleiddio uwchlaw nenfwd llawr uchaf annedd neu rhwng coed y to lle mae'r atig wedi'i drosi yn ofod trigiadwy. Lle na ellid arsylwi deunydd inswleiddio, cymerwyd gwybodaeth gan ddeiliad y tŷ neu o amcangyfrifon wedi'u priodoli yn seiliedig ar oedran yr annedd a'r math o annedd.

## Ardal Leol

Caiff yr ardal leol ei diffinio fel yr ardal o amgylch yr annedd y mae'n ymddangos bod yr annedd yn rhan ohoni. Ni fydd yr annedd yng nghanol yr ardal o reidrwydd.

## Golau rhad-ar-ynni

Mae golau rhad-ar-ynni'n cynnwys goleuadau strïbed yn ogystal â bylbiau golau rhad-ar-ynni.

## Golau rhad-ar-ynni

Mae golau rhad-ar-ynni'n cynnwys goleuadau strïbed yn ogystal â bylbiau golau rhad-ar-ynni.

## Plant nad ydynt yn ddibynol

Unrhyw berson dros 18 oed neu sydd rhwng 16 a 18 oed ond nad yw mewn addysg amser llawn sy'n byw mewn teulu gyda'i riant/rieni neu fam-gu(od) neu dad-cu(od).

## Meddiannaeth

Mae'r syrfëwr yn nodi p'un a yw'r annedd wedi'i meddiannu neu'n wag, a'r cyfnod perthnasol o amser. Mae'r syrfëwr hefyd yn nodi ffynhonnell ei wybodaeth ar feddiannaeth yr annedd.

## Gorlenwi

Dywedir bod cartrefi wedi'u gorlenwi os oes llai o ystafelloedd gwely ar gael ynddynt na'r nifer dybiannol sy'n angenrheidiol yn ôl y diffiniad o safon ystafelloedd gwely. Gweler [safon ystafelloedd gwely](#).

## **Elfennau adnewyddadwy**

Mae mesurau ynni adnewyddadwy yn cynnwys paneli solar, systemau solar ffotofoltäig, pypiau gwres, systemau biomas a thyrbinau gwynt:

### **Paneli solar**

Mae paneli solar i gynhesu dŵr yn defnyddio ynni'r haul i gynhesu dŵr. Gwneir hynny drwy roi'r paneli yng ngolau'r haul (fel arfer ar y to), a'u cysylltu â dyfais storio dŵr poeth. Caiff hylif (fel arfer dŵr neu hylif gwrth-rewi yn dibynnu ar y system) ei gynhesu o fewn y panel gan yr haul, ac wedyn mae'n llifo drwy'r system ac yn mynd trwy goil o fewn y ddyfais storio dŵr poeth, gan gynhesu'r dŵr yn y tanc.

Nid oes unrhyw faint penodol ar gyfer panel solar i gynhesu dŵr. Mae'r maint yn dibynnu ar y gwneuthurwr, y math o banel, ac mewn rhai achosion y system ei hunan.

### **Paneli solar ffotofoltäig**

Mae systemau trydan o baneli solar, a elwir hefyd yn systemau ffotofoltäig, yn casglu ynni'r haul drwy ddefnyddio celloedd ffotofoltäig. Nid oes angen goleuni uniongyrchol yr haul ar y celloedd hynny iddynt weithio – gallant gynhyrchu rhywfaint o drydan ar ddiwrnod cymylog. Mae'r celloedd yn troi goleuni'r haul yn drydan, y gellir ei ddefnyddio i redeg offer a goleuadau yn y cartref.

### **Pypiau gwres**

Mae pwmp gwres ffynhonnell aer neu ddŵr daear yn trawsnewid gwres drwy anweddu a chyddwyso oerydd mewnol. Caiff gwres ei gyfnewid o'r wyneb allanol i system dosbarthu gwres y cartref. Mae pypiau gwres yn cael eu pŵer o drydan. Ond mae'r trydan yn cael ei ddefnyddio i bwmpio'r oerydd o gwmpas y ddolen yn unig. Mewn gwirionedd, mae ynni'r gwres yn deillio o'r ddaear (yn achos pwmp gwres o'r ddaear). Mae'n bosibl cael pwmp gwres ar gyfer cynhesu dŵr yn unig.

### **Tanwydd biomas**

Defnyddir y term biomas i gyfeirio at unrhyw danwydd sy'n cael ei ystyried yn 'garbon isel', sy'n deillio o organebau byw neu rai a oedd yn fyw yn ddiweddar (hynny yw nid tanwyddau ffosil). Mae enghreifftiau'n cynnwys cnydau ynni, prysgoed, gwellt a gwastraff anifeiliaid.

### **Tyrbinau gwynt**

Mae tyrbinau gwynt yn manteisio ar bŵer y gwynt ac yn ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan. Mae tyrbinau gwynt yn defnyddio llafnau mawr i ddal y gwynt. Pan fydd y gwynt yn chwythu, mae'r llafnau'n cael eu gorfodi i droi, sy'n achosi i'r tyrbin gynhyrchu trydan. Po fwyaf y mae'r gwynt yn chwythu, mwyaf y trydan a gynhyrchir.

Mae dau fath o dyrbin gwynt maint domestig:

- Wedi'i osod ar bolyn: mae'r rhain ar eu traed eu hunain a chânt eu gosod mewn safle agored addas, â chapasiti i gynhyrchu tua 5 i 6 cilowat (kW).
- Wedi'i osod ar adeilad: mae'r rhain yn llai na systemau sydd wedi'u gosod ar bolyn, a gellir eu rhoi ar do cartref mewn man lle ceir digon o wynt. Yn aml, mae'r rhain tua 1kW i 2kW o ran pŵer.

### **Gweithdrefn Asesu Safonol**

Mae dosbarthiad y Weithdrefn Asesu Safonol yn seiliedig ar y costau ynni a fyddai'n gysylltiedig â rhedeg yr annedd. Caiff yr amodau rhedeg safonol ac arwynebedd gros y llawr (m<sup>2</sup>) eu hystyried, er mwyn sicrhau y gellir cymharu gwahanol feintiau anheddau. Caiff y dosbarthiadau eu mynegi ar raddfa rhwng 1 a 100, lle mae 100 yn cynrychioli dim cost ynni. Mewn rhai achosion, gall annedd gael dosbarthiad o fwy na 100, ond caiff hyn ei gadw ar gyfer anheddau sy'n allforio ynni ac sy'n gwneud elw net. Defnyddir methodoleg 'SAP 2012'.

Caiff dosbarthiadau'r Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) eu rhannu yn fandiau o A i G. Mae'r gwerthoedd uchaf (h.y. y lefelau uchaf o effeithlonrwydd ynni) wedi'u neilltuo i fand A ac mae'r gwerthoedd isaf wedi'u neilltuo i fand G. Dangosir y bandiau yn y tabl isod. Defnyddir yr un bandiau ar gyfer dosbarthiadau Effaith Amgylcheddol (EI).

Band SAP neu EI	Dosbarthiad SAP neu EI
A	92+
B	81-91
C	69-80
D	55-68
E	39-54
F	21-38
G	1-20

### **Dosbarthiad Effaith Amgylcheddol**

Mae'r dosbarthiad Effaith Amgylcheddol yn seiliedig ar effaith yr annedd ar yr amgylchedd o ran allyriadau CO<sub>2</sub> sy'n gysylltiedig â rhedeg yr annedd. Caiff yr amodau rhedeg safonol ac arwynebedd gros y llawr (m<sup>2</sup>) eu hystyried, er mwyn sicrhau y gellir cymharu gwahanol feintiau anheddau. Caiff y dosbarthiad Effaith Amgylcheddol ei fynegi ar raddfa o 1 i 100, lle mae 100 yn cynrychioli annedd carbon niwtral. Caiff dosbarthiadau Effaith Amgylcheddol eu rhannu yn fandiau o A i G gan ddefnyddio'r un bandiau â dosbarthiadau'r Weithdrefn Asesu Safonol.

### **Diffygion Strwythurol**

1. Gwasgariad to
2. Ymosodiad sylffad
3. Parapet ansefydlog

4. Wal yn bolio
5. Symudiad gwahanol
6. To yn sigo
7. To yn crymu
8. Capan drws yn methu
9. Rhwymyn wal yn methu
10. Lloriau, grisiau neu nenfydau ansefydlog
11. Pydredd sych/Pydredd gwlyb
12. Pla o dyllbryfed
13. Digonolrwydd balconïau / bargodiadau
14. Seiliau yn sadio
15. Uniondeb ffrâm strwythurol
16. Uniondeb paneli waliau
17. Wal derfyn - uchder anniogel
18. Wal derfyn - allan o blwm
19. Wal derfyn - craciau llorweddol
20. Wal gynnal ansefydlog
21. Unrhyw broblemau eraill

## **Deiliadaeth**

Defnyddir y categorïau canlynol at y rhan fwyaf o ddibenion adrodd:

- perchen-feddiannwyr: yn cynnwys perchenogion llwyr, y sawl sy'n prynu gyda morgais neu fel rhan o gynllun perchenogaeth a rennir. Mae'n cynnwys pawb sy'n prynu eu cartref gan gymdeithas dai.
- tai rhent cymdeithasol: yn cynnwys cartrefi sy'n rhentu gan Awdurdodau Lleol (yn cynnwys Sefydliadau Rheoli Hyd Braich ac Ymddiriedolaethau Gweithredu ar Dai) a Chymdeithasau Tai, Cwmnïau Tai Lleol, cwmnïau cydweithredol ac ymddiriedolaethau elusennol.
- rhentu preifat: rhentu gan landlord preifat, cwmni preifat, sefydliad arall, perthynas neu ffrind. Mae'r sector hwn yn cwmpasu pob tenant arall yn cynnwys y sawl y mae eu llety yn gysylltiedig â'u swydd. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n byw heb dalu rhent (er enghraifft, pobl sy'n byw mewn fflat sy'n eiddo i berthynas).

## **Eiddo wedi ei danfeddiannu**

Dywedir bod cartrefi yn tanfeddiannu eu heiddo os oes ganddynt ddwy neu fwy o ystafelloedd gwely yn fwy na'r nifer dybiannol sy'n angenrheidiol yn ôl y diffiniad o safon ystafelloedd gwely. Gweler [safon ystafelloedd gwely](#).

## **Trefol/Gwledig**

Fel y'i diffinnir gan y [SYG](#). Mae trefol yn cyfuno'r categorïau trefol a dinesig ac mae gwledig yn cyfuno'r pentrefi a'r anheddau a phentrefannau anghysbell.

### **Eiddo gwag**

Nid yw'r arolwg yn cynnwys eiddo gwag.

### **Aelwydydd sy'n agored i niwed**

Diffinnir aelwydydd sy'n agored i niwed fel y rheiny ag unigolyn sy'n 60 oed neu'n hŷn, plentyn neu berson ifanc o dan 16 oed a/neu sydd â chyflwr cyfyngol hirdymor.

### **Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru'n nodi y dylai pob cartref gael y cyfle i fyw mewn cartrefi o ansawdd da sydd:

- Mewn cyflwr da.
- Yn ddiogel ac yn saff.
- Wedi'u gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran tanwydd ac wedi'i inswleiddio'n dda.
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Wedi'u rheoli'n dda.
- Wedi'u lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
- Cyn belled â phosibl, yn bodloni gofynion penodol yr aelwyd (e.e. anableddau penodol).

[Mae'r datganiad hwn yn edrych ar asesiad o rai elfennau o Safon Ansawdd Tai Cymru \(SATC\)](#), fel y'u mesurwyd yn ôl Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18.